

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl:	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad (I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Kathryn Markey			
Dyddiad:	Hydref 2015, ond wedi'i ddiweddaru ym mis Chwefror a mis Rhagfyr 2016			
Arweinydd polisi:	Andrew Jacobs			
Manylion cyswllt:	Cynhwysiant Ariannol Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru Swyddfa Merthyr Tudful, Rhyd-y-car CF48 1UZ Ffôn : 0300 062 8314 FinancialInclusion@wales.gsi.gov.uk			
Math o Raglen/Prosiect ☒ Polisi ☐ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (Nodwch isod) ☐ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthusiad ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau				
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
☐	☐	☐	☐	☒
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? Caiff y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd ar gyfer 2016 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016) ei hategu gan Gynllun Cyflawni, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae hwn yn nodi'r camau gweithredu manwl i fwrw ymlaen ag ymrwymiadau'r Strategaeth. Bydd amryw o bolisiâu, prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno gan adrannau				

Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Tai, Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn ogystal â'r gwaith allweddol o fewn y cyfarwyddiaethau Cymunedau a Threchgu Tlodi, yn sail i'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Efallai bod rhaglenni unigol eisoes wedi nodi'r costau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg a byddant wedi cwblhau eu Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg eu hunain.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☒	☐	☐	☐

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Rhagwelir y bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddiwygiedig yn parhau'n berthnasol tan 2021.

Tachwedd 2015-Ionawr 2016 Ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol

Mawrth 2016 Cyhoeddi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y cytunwyd arni

Rhagfyr 2016 Cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 yn parhau ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhwysiant ariannol, fel y nodwyd yn y Strategaeth gyfredol – Mae Pawb yn Cyfrif - a gyhoeddwyd yn 2009.

O ran cynhwysiant ariannol, gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod pawb sy'n byw yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau ariannol priodol a fforddiadwy, yn gallu cael cymorth gan wasanaethau gwybodaeth a chynngor sy'n destun prosesau sicrhau ansawdd ac yn meddu ar y gallu ariannol a'r cymhelliant i elwa ar y gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt.

Yn unol â safbwynt y Comisiwn Cynhwysiant Ariannol, mae hyn yn golygu Cymru lle mae:

- Pob oedolyn a phlentyn yn cael yr addysg ariannol y mae ei hangen, gan ddechrau yn yr ysgol gynradd a pharhau gydol oes ac ar ôl ymddeol
- Pob oedolyn yn gallu cael gwybodaeth a chynngor diduedd a dealladwy ar gredyd, dyled, cynilion a phensiynau, a hynny ar yr adeg a thrwy'r cyfrwng sy'n gweddu orau i'r unigolyn.
- Gan bob oedolyn gredyd trafodion ei hun a'r gallu i'w ddefnyddio'n llawn
- Pob oedolyn yn gallu cael credyd fforddiadwy a phriodol gan fenthycwyr cyfrifol.

- Pob oedolyn yn cael ei annog i gynilo, hyd yn oed symiau bach neu achlysurol, i ddangos pwysigrwydd diwylliant cynilo, i adeiladu sicrwydd yn erbyn ergydion ariannol ac fel adnodd ychwanegol ar gyfer ymddeoliad.
- Pob oedolyn yn gallu cael yr yswiriant cywir ar gyfer ei anghenion, am bris teg

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ei bod hi'n bwysig bod pawb yng Nghymru yn cael cymorth tuag at gynhwysiant ariannol, ond yn cydnabod bod angen cymorth a chynghor i oedrannau gwahanol, ar gyfer grwpiau agored i niwed a phobl sydd eisoes mewn tipyn o dwll ariannol.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Dyma ailwampiad o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol flaenorol – Mae Pawb yn Cyfrif – a gyhoeddwyd yn 2009. Ym mis Tachwedd 2014, ymrwymodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ddiwygio Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2009.

Cafodd Strategaeth 2016 ei datblygu law yn llaw â grŵp cynghori'r Gweinidogion – y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol. Mae aelodau'r grŵp hwn yn hanu o sefydliadau partner allweddol ledled y wlad.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, ystyriwyd a oedd y dull gweithredu a ddefnyddid yn briodol, a oedd yr amcanion strategol yn dal yn berthnasol a sut y gallen ni barhau â'r camau gweithredu a'r mentrau a oedd ar waith neu adeiladu arnynt.

Mae polisiâu a rhaglenni cyfredol Llywodraeth Cymru eisoes yn ategu llawer o feysydd gweithredu blaenoriaeth sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol. Mae'r Strategaeth yn rhoi ffocws a chyfeiriad strategol i adrannau eraill Llywodraeth Cymru fel bod cynhwysiant ariannol wedi'i gysylltu'n briodol â'u strategaethau a'u rhaglenni eu hunain ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer dull cydlynus o weithio, gan sicrhau gwerth am arian wrth i'r gwaith dan sylw fodloni mwy nag un o flaenoriaethau'r llywodraeth.

Mae pumed amcan y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig (*helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gyngor ynghylch dyledion a chynghor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles*) yn dibynnu ar gyflwyno Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd.

Mae yna gysylltiadau amlwg rhwng Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 a'r amcanion, a bennwyd trwy ymgynghoriad cyhoeddus, ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016. Mae'r rhain yn ymwneud â darparu gwasanaethau cynghori a lleihau /

lliniaru effeithiau tlodi.

Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddrafft eu hystyried wrth lunio fersiwn derfynol o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 a datblygu'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Chwe nod iaith Fyw: iaith Byw yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Gymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd yn ategu rhai o amcanion Iaith Fyw: iaith Byw yn uniongyrchol ac yn cefnogi eraill yn anuniongyrchol. Mae gan y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol dair thema graidd:

- mynediad at wasanaethau credyd ac ariannol fforddiadwy
- mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled
- meithrin dealltwriaeth a gallu ariannol.

Mae gwybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled, ar gael o bob math o ffynonellau amrywiol – ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru o ran Gwybodaeth a Chyngor ac yn hyrwyddo'r broses o ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Ansawdd Cyngor a Gwybodaeth i Gymru fesul tipyn, a fydd yn cynnwys ystyried y ddarpariaeth gwasanaethau Gymraeg. Bydd map rhyngweithiol dwyieithog o ddarpariaethau cyngor yn codi ymwybyddiaeth well o wasanaethau cynghori cyfrwng Gymraeg ar gyfer ymarferwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Mae addysg ariannol yn gyfrannwr allweddol tuag at wella gallu ariannol pawb yng Nghymru. Mae eisoes yn rhan o'r cwricwlwm ysgolion, gydag adnoddau dwyieithog ar gael trwy Hwb a ffynonellau eraill. Nid ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysgol yn unig y mae sesiynau addysg/gallu ariannol – gellir defnyddio adnoddau dwyieithog ar-lein yn y gymuned hefyd er mwyn gweithio gyda phobl o bob oed, gan gynnwys rhai cynlluniau pilot â theuluoedd sy'n cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gyda chymorth y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cymru.

Mae cynhwysiant digidol yn cael ei weld yn gam pwysig tuag at gynhwysiant ariannol, gydag adnoddau ar-lein fel y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a gwefannau Money Made Clear Wales yn darparu adnoddau dwyieithog.
Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?
Bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 yn creu nifer o effeithiau cadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyrwyddo'r wybodaeth ddwyieithog a'r adnoddau gallu ariannol dwyieithog sydd ar gael ar-lein ac i'w lawrlwytho, gan gynnwys deunyddiau addysg ariannol, yn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Dywedodd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori 2013 fod y gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg yn bodloni gofynion y Cynllun Iaith. Bydd gwaith i fapio'r ddarpariaeth gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod y wybodaeth ar gael i ymarferwyr, staff rheng flaen mewn sefydliadau partner a allai gyfeirio pobl at wasanaethau cynghori, a'r cyhoedd, yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg. Bydd gwaith dadansoddi anghenion a wneir ar gyfer y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor a'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor i Gymru. Mae'r fframwaith yn debygol o fynd i'r afael â sawl elfen a ddylai gynnig hyder i ddarparwyr gwasanaethau posibl, gan gynnwys ystyried y ddarpariaeth iaith Gymraeg. Roedd y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn rhoi pwys mawr ar gael cyngor drwy'r Gymraeg, wyneb yn wyneb ac ar y ffôn, yn ogystal â darpariaeth Gymraeg ar y we. Hefyd, mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol wedi'i hategu gan lu o bolisiâu a rhaglenni cyfredol Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol.
Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?
Bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru. Bydd y rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am gyflawni yn erbyn y Strategaeth yn cynnwys cyllidwyr a darparwyr gwasanaethau cynghori, undebau credyd, awdurdodau lleol, darparwyr addysg a chymdeithasau tai. Bydd llawer o'r rhanddeiliaid hyn wedi'u cynnwys gan Safonau'r Gymraeg maes o law.

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)? Bydd gwaith a wneir i fapio'r darpariaethau gwasanaethau cynghori yn tynnu sylw at ba wasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Mae Grŵp Cynghori sydd wedi'i ailwampio a'i ehangu, ac a gymeradwywyd gan y Gweinidog, wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cyflawni a bydd yn monitro'r cynnydd a wneir o ran yr ymrwymadau a'r camau gweithredu. Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddrafft wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni.
CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u> Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.
Effeithiau cadarnhaol: Bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 yn creu nifer o effeithiau cadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 dair thema graidd a dwy thema drawsbynciol sef cynhwysiant digidol a defnyddio incwm i'r eithaf. Y themâu craidd yw: • mynediad at wasanaethau credyd ac ariannol fforddiadwy • mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled • meithrin dealltwriaeth a gallu ariannol. Bydd effeithiau cadarnhaol allweddol Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 yn deillio o'r themâu sy'n ymwneud â chynghori a gwybodaeth a gallu ariannol. Dywedodd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori 2013 fod y gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg yn bodloni gofynion y Cynllun Iaith. Bydd gwaith i fapio'r ddarpariaeth gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau bod y wybodaeth ar gael i ymarferwyr, staff rheng flaen mewn sefydliadau partner a allai gyfeirio pobl at wasanaethau cynghori, a'r cyhoedd, yn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chynghori a'r Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chynghori i Gymru. Mae'r fframwaith

yn debygol o fynd i'r afael â sawl elfen a ddylai gynnig hyder i ddarparwyr gwasanaethau posibl, gan gynnwys ystyried y ddarpariaeth iaith Gymraeg. Roedd y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn rhoi pwys mawr ar gael cyngor drwy'r Gymraeg, wyneb yn wyneb ac ar y ffôn, yn ogystal â darpariaeth Gymraeg ar y we. Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi darpariaeth gwybodaeth a chynghori gyda sicrwydd ansawdd.

Mae cynhwysiant digidol yn cael ei weld yn gam pwysig tuag at gynhwysiant ariannol, gydag adnoddau ar-lein fel y Gwasanaeth Cyngori Ariannol a gwefannau Money Made Clear Wales yn darparu adnoddau dwyieithog.

Mae addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm ysgolion ers 2008. Mae'r rhaglen astudio Mathemateg newydd o fis Medi 2015 yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin sgiliau ac ymwybyddiaeth ariannol. Mae adnoddau addysgol dwyieithog ar gael trwy Hwb.

Gellir cyflwyno sesiynau addysgol/gallu ariannol mewn lleoliadau eraill hefyd (addysg bellach neu uwch, addysg i oedolion yn y gymuned) neu yn y gymuned ei hun. Mae'r Strategaeth yn ymroi i weithio gyda sefydliadau partner er mwyn annog mentrau gallu ariannol sy'n targedu rhieni, teuluoedd, plant a phobl ifanc.

Bydd hyrwyddo'r wybodaeth ddwyieithog a'r adnoddau gallu ariannol dwyieithog sydd ar gael ar-lein ac i'w lawrlwytho, gan gynnwys deunyddiau addysg ariannol, yn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Hefyd, bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol wedi'i hategu gan lu o bolisiâu a rhaglenni cyfredol Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Effeithiau negyddol:

Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd yn cael unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr adnoddau ar arferion da cyfredol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyngori trwy gyfrwng y Gymraeg, addysg ariannol ym mhob ysgol wladol, adnoddau addysg ariannol dwyieithog a darparu gwybodaeth cynhwysiant digidol.

Mae'r Strategaeth yn annog pobl i fanteisio ar wasanaethau ariannol priodol, gan gynnwys cyfrifon trafodol a chynilo, a gwasanaethau ariannol fel yswiriant. Gan mai cwmnïau masnachol sy'n darparu'r rhain, efallai nad ydynt ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, er efallai bod rhai sefydliadau'n darparu rhywfaint o wasanaethau Cymraeg. Holwyd siaradwyr Cymraeg rhugl (gan Gyngor ar Bopeth) am eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat, gan gynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu. Er bod hyn y tu hwnt i gwmpas cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, rydym am adolygu'r opsiynau o ran dylanwadu ar y sector preifat yn ystod oes y Strategaeth.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y

defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?	
Bydd hyrwyddo'r wybodaeth ddwyieithog a'r adnoddau gallu ariannol dwyieithog sydd ar gael ar-lein ac i'w lawrlwytho, gan gynnwys deunyddiau addysg ariannol, yn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Bydd cyhoeddi a hyrwyddo canlyniadau'r gwaith o fapio darpariaethau gwasanaethau cynghori cyfrwng Cymraeg yn codi ymwybyddiaeth ymarferwyr, staff rheng flaen mewn sefydliadau partner a allai gyfeirio pobl at wasanaethau cynghori, a'r cyhoedd, o wasanaethau cynghori a chanllawiau cyfrwng Cymraeg. Gan fod y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn cyd-fynd yn agos iawn â pholisïau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, bydd cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg fel y nodwyd yn eu Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, hefyd yn berthnasol.	
Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:	
Dywedodd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori 2013 fod y gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg yn bodloni gofynion y Cynllun Iaith. Bydd canlyniadau gwaith a wneir i fapio'r ddarpariaeth gwasanaethau cynghori trwy gyfrwng y Gymraeg yn nodi'r ddarpariaeth sydd ar gael.	
Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?	Cadarnhaol: ☒ Negyddol: ☐ Niwtral: ☐ Anhysbys: ☐
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol ☒ 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐
Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus naw wythnos ar gyfer y fersiwn ddrafft o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016, rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Ionawr	

2016.

Cyhoeddwyd fersiynau drafft o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol er mwyn ymgynghori arnynt. Cynhwyswyd y canlynol fel un o gwestiynau'r ymgynghoriad:

Ydych chi'n dymuno rhoi sylw am, neu ddarparu tystiolaeth i'w chynnwys yn, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg?

Ydw / Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion priodol a dolenni cyswllt i gefnogi'ch ateb.

Cynhaliodd sefydliadau partner allweddol sesiynau ymgynghori cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru, neu aethpwyd ati i gynnwys ymgynghoriad ar agendâu ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd, er mwyn cynnig cyfle i'w rhanddeiliaid drafod y Strategaeth ddrafft gyda swyddogion ac annog ymatebion goleuedig i'r ymgynghoriad. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled Cymru.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Wrth fynd ati i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni, ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft a'r Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Adolygwyd yr Asesiad Effaith wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Byddwn yn adolygu'r Asesiad Effaith wrth ystyried y cynnydd a wneir o ran ymrwymadau'r Strategaeth a byddwn yn diweddarau'r ddogfen a gyhoeddir yn ôl yr angen.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Mae'r Cynllun Cyflawni yn amlinellu mesurau gwerthuso a meini prawf llwyddiant y camau i fodloni ymrwymadau'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Caiff adroddiad blynyddol ei lunio ar y cynnydd a wneir o ran ymrwymadau'r Strategaeth.

Trafodwyd y methodolegau gwerthuso â chydweithwyr yn Nhîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi: <i>*Dileer fel y bo'n briodol:</i> *Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.
Enw:
Kathryn Markey
Adran:
Yr Is-Adran Gymunedau
Dyddiad(au):
Rhagfyr 2016
Llofnod:
K Markey
Dyddiadau adolygu:
Mawrth 2018

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.	
Llofnodwyd Amelia John (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad 6 Mawrth 2017